**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC-01-02(p.7)**

**Dyddiad: 30 Ionawr 2002**

**Amser: 9.30am**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

**Teitl: Rhannau o 'Ysgogi'r Rheini mewn Swyddi Cyhoeddus': Ymarfer Cwmpasu'. Teresa Rees – Gorffennaf 2001**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r papur hwn yn awgrymu sut gallwn ddarganfod mwy am yr hyn sy'n ysgogi pobl i wneud cais am swyddi cyhoeddus a'u derbyn, gyda golwg ar nodi ffyrdd o ehangu'r amrywiaeth o ymgeiswyr. Mae llawer o gyfleoedd i wasanaethu'r cyhoedd trwy benodiadau o'r fath. Fodd bynnag, nid yw'r ymgeiswyr, o ran eu nodweddion economaidd-gymdeithasol a demograffig, fel arfer yn amrywiol iawn. Nid yw'r bobl sydd â photensial i fod yn weithwyr cyhoeddus arbennig yn ymgeisio. Mae'r ffactorau hyn yn codi pryder ynghylch cynrychioladwyedd (yn fras) byrddau'r cyrff cyhoeddus. Maent hefyd yn awgrymu na fydd cyrff cyhoeddus yn elwa o'r mewnbwn gwerthfawr y byddai aelodaeth mwy amrywiol yn ei ddarparu.

1.2 Comisiynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y papur hwn ar gais y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac mewn cydweithrediad â Dame Rennie Fritchie, Comisiynydd y DU dros benodiadau cyhoeddus. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus (OCPA) yn rhannu'r ymrwymiad i wella cyfleoedd i wasanaethu'r cyhoedd a chyfranogiad yn y gwasanaeth cyhoeddus.

1.3 Mae'r papur yn amserol, am mai 2001 yw Blwyddyn Wirfoddoli'r Cenhedloedd Unedig.

## 2. Cylch Gorchwyl

2.1 Diben cylch gorchwyl y papur hwn yw pennu paramedrau ar gyfer ymchwilio i'r hyn sy'n ysgogi pobl i ymgeisio am swyddi cyhoeddus. Yn fwy penodol, mae'n nodi diben yr ymarfer sef:

i) nodi’r rhesymau a ysgogodd pobl sydd eisoes mewn swyddi cyhoeddus i ymgeisio am swyddi a’u derbyn ac i weld a oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng rhyw, oed, hil a grwpiau anabledd;

ii) nodi’r rhesymau pam nad yw pobl sydd â chymwysterau addas, yn enwedig y rheini o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn ymgeisio am swyddi cyhoeddus; ac

iii) awgrymu ffyrdd y gellir defnyddio’r wybodaeth o i) a ii) i ddenu mwy o bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymgeisio am swyddi, ac i asesu posibilrwydd a budd gwneud hynny.

2.2 Mae’r cylch gorchwyl yn sefydlu sut y dylid cyfeirio at brîff o’r fath, ac yn amcangyfrif y gost tebygol a’r amser sydd ei angen.

**7. Crynodeb o’r argymhellion**

<u>Tasg 1: Pam fod pobl yn gwasanaethu:</u>

7.1 *Arolwg llenyddol* o’r hyn sy’n ‘ysgogi ac yn annog gwirfoddoli’ gan arbenigwr yn y maes, â chyfweliadau gyda rhai pobl fel atodiad (megis cynrychiolydd o’r Cyngor Gwirfoddoli Cenedlaethol). Amcangyfrif yr amser: dau fis. Amcangyfrif y gost: £3,000.

7.2 Cyfres o *grwpiau ffocws* o draws-doriad o weithwyr cyhoeddus presennol, mewn tair Haen, i nodi’r prif bethau sy’n ysgogi ac yn annog pobl i wirfoddoli ar gyfer swydd gyhoeddus ac i aros mewn swydd gyhoeddus. Amcangyfrif yr amser: tri mis. Amcangyfrif y gost: £10,000.

7.3 *Arolwg ar ffurf holiadur strwythedig* o sampl haenedig o weithwyr cyhoeddus presennol i edrych ar yr hyn sy’n eu hysgogi a’u hannog. Dylai’r sampl gynnwys haenau gwahanol o swyddi cyhoeddus. Dylai’r wybodaeth sy’n cael ei chasglu gynnwys hanes yr unigolyn o wasanaethu’r cyhoedd, amrywiadau economaidd-gymdeithasol a demograffig, yr hyn sy’n eu hysgogi a’u hannog, a sut wnaeth yr ymatebydd gael gwybodaeth am y cyfle. Amcangyfrif yr amser: tri mis. Amcangyfrif y gost: £8,00.

<u>Tasg 2: Pam nad yw pobl yn gwasanaethu</u>

7.4 Cwestiynau’r comisiwn ynghylch dinasyddiaeth weithredol i’w cynnwys mewn *arolwg omnibws rheolaidd* o’r cyhoedd a gofyn am ddadansoddiad o ddata i gynnwys croes-dabliad o’r nodweddion economaidd-gymdeithasol a demograffig. Amser: tri mis (yn dibynnu ar y camau) Cost: i’w drafod, yn anhysbys ond ddim yn ddrud.

7.5 *Ymgynghori â sefydliadau sy'n cynorthwyo'n ffurfiol gyda'r broses recriwtio.* Bydd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar sefydliadau cynrychioliadol, cyrff enwebu ac asiantaethau chwilio. Amser: pum mis. Cost: £6,000.

7.6 *Arolwg o gyfweliadau ffôn* asiantaethau cydraddoldeb a grwpiau sy'n ymdrin yn arbennig â'r rheini sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi cyhoeddus, megis Pwyllgorau Cydraddoldeb Hil, Anabledd Cymru a Chynulliad Menywod Cymru. Amser: Chwe wythnos. Cost: £2,500.

<u>Tasg 3: Ffyrdd i annog pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol</u>

7.7 *Datblygu ffyrdd i wasanaethu'r cyhoedd*, i helpu pobl i fynd o gam i gam, o fân-swyddi i'r prif swyddi.

7.8 *Ardystio sgiliau a chymwyseddau sy'n darlunio 'gallu i wasanaethu'*, i oresgyn diffyg hyder, gwybodaeth a sgiliau.

7.9 *Moderneiddio dulliau gweithio cyrff cyhoeddus* i chwalu rhwystrau i bobl anabl a'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofal a phroblemau trafnidiaeth.

7.10 *Hybu aseswyr annibynnol a gweithwyr cyhoeddus i ymddiddori mewn gwasanaethu'r cyhoedd a gwybodaeth am wasanaethu'r cyhoedd* mewn ardal benodol neu ymhlith aelodau o grwp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.